

# William Bulkeley y dyddiadurwr a'i gylch – rhai o'u llyfrau

**D**iddorol oedd darllen yn rhifyn 72 o'r *Casglwr* ysgrif W. Jones Parry ar y marsiandwr a'r môrheliwr Fortunatus Wright, m. 1757, a'i dad-yng-nhyfraith William Bulkeley, 1691-1760, y dyddiadurwr o'r Brynddu, Llanfechell, Môn. Yn ei gyfrol *History of the Liverpool privateers* (Llundain, 1897) mae Gomer Williams yn disgrifio Wright fel hyn, 'Captain Fortunatus Wright was undoubtedly the most famous British privateer commander of his time, and Liverpool's favourite hero during the first half of the eighteenth century'. Cofiaf glywed gyntaf am Bulkeley a Wright gan y diweddar Richard Jones, fy mhrifathro yn ysgol Llanfechell.

Hyfryd, hefyd, oedd gweld gyda'r ysgrif ddarlun o hen dŷ nobl y Brynddu. Mae'n gartref heddiw i ddisgynyddion Fortunatus a Mary Wright. Bu'n eiddo i'r un teulu am ymhell dros dri chan mlynedd. Gwnaed i ffwrdd erbyn hyn â'r ystafell wydr ger y drws ffrynt. Nid oes sôn am y tŷ hwn yn arolwg y Comisiwn Henebion ar Fôn a gyhoeddwyd yn 1937 ond rhywbryd yn ddiweddarach, fe'i rhestrwyd fel adeilad o ddiddordeb haneysddol a phensaernïol. Gellir gweld cynllun bychan ohono ar dudalen 255 o ail argraffiad (1988) cyfrol Peter Smith, *Houses of the Welsh Countryside*. Bernir fod rhan hynaf y tŷ presennol yn dyddio o ddiwedd y 17 ganrif ond gwyddys fod tŷ ar y safle ymhell cyn hynny. Ceir disgrifiadau yn y dyddiadur o newidiadau a wnaed i'r tŷ gan William Bulkeley ei hun, e.e. ychwanegu saith ystafell ato yn 1737 a phanelu'r parlwr yn 1749 gyda 'Dantzick oak', hynny yw derw o gyffiniau dinas Danzig, Gdansk heddiw. Atgynhyrchir llun bychan a wnaed o'r tŷ rywbryd cyn 1742 yn *Brasluniau Lewis Morris o eglwysi, tai a phentrefi ym Môn*, llyfr a gyhoeddwyd gan Dafydd Wyn Wiliam yn 1999. Mae Brynddu heddiw yn ddigon tebyg yn allanol ac yn fewnol i'r tŷ a fodolai ar ddiwedd oes y sgweiar yn 1760, yn enwedig felly gan i adain a godwyd tua 1850 gael ei dymchwel ar ddechrau'r 1930au. Trafodir y tŷ, hefyd, ynghyd â chreiriau cysylltiedig â'r môrheliwr a ddaeth i lawr drwy'r teulu mewn erthygl yn rhifyn Gaeaf 1963 o *Country Quest*. Ym mhllith y trysorau hyn mae paentiad o'r 'Fame', llong Fortunatus Wright. Noda William Bulkeley yn y dyddiadur iddo fframio hwn ar y 10fed o Ragfyr 1748.

Cyfeiria Mr. Parry yn ei ysgrif at Fortunatus Wright yn anfon planhigion o Leghorn at ei dad-yng-nhyfraith ym Môn. Dengys llythyrau'r Morrisiaid iddo hefyd yrru hadau, llysiau a ffosiliau at William Morris yng Nghaergybi. Hawdd deall sut y croesodd llwybrau Fortunatus a William gan fod y Morrisiaid, Lewis a William yn arbennig, ar delerau cyfeillgar iawn ag yswain y Brynddu. Yn un o llythyrau William at Lewis y ceir yr unig



Brynddu - cartref William Bulkeley

ddisgrifiad pryd a gwedd o William Bulkeley sydd ar glawr. Fel hyn y disgrifia William Morris ei ymweliad â'r plas mewn llythyr dyddiedig y 1af, 1760, 'Mi a gyrhaeddais y Brynddu cyn ciniaw. Pwy a egorodd ym ddrws y neuadd, ond yr hen ysgwier ei hun, Ac yn ddiaid, rhyfedd oedd gennyf ei weled rhag mor gul yttawdd. Cilffyn o hen ŵr, tenau, gwyneblwyd a chòb fawr am tano wedi ei rhwymo â gwregys lledr cyn dynned ag y gwnai geneth ddeunaw mlwydd oed y dyddiau gynt'. Claddwyd William Bulkeley yn Llanfechell ar y 28ain o Hydref yr un flwyddyn. Lewis Morris oedd awdur cerdd ddoniol i'r dyddiadurwr, sydd i'w gweld yn y *Diddanwch teuluaid*, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1763. Teitl hon yw, *Cywydd i yrru'r falwen yn gennad at William Bwclai o'r Brynddu ym Môn, Eaq; oddiwrth Lewelyn Ddu, Swyddog o'r Dollfa Frenhinol yng Ngaer Gybi*, yn y flwyddyn 1730. Ymddengys enw Fortunatus Wright yn rhestr tanyysgrifwyr dau lyfr sydd â chysylltiad â'r Morrisiaid. Y gyfrol amlycaf ei chysylltiad yw gwaith enwog Lewis Morris, *Plans of Harbours*, a gyhoeddwyd yn 1748. Ceir y canlynol yn rhestr 'Fortunatus Wright, Merc. Leghorn. 6B and 6 Charts.' Gwelir i Fortunatus, a ddisgrifir yma fel marsiandwr, dalu ymlaen llaw am chwe chopi o'r gyfrol a chwech o'r siart o arfordir Cymru a gyhoeddwyd yr un pryd.

Mwy annisgwyl ar yr olwg gyntaf yw ymddangosiad 'Fortunatus Wright of Leghorn, Merchant.' yn rhestr tanyysgrifwyr geiriadur Cymraeg-Saesneg Thomas Richards, Llangrallo, *Antiquae linguae Britannicae thesaurus...* a gyhoeddwyd yn 1753. Mewn nodyn yn rhifyn 47 o'r *Casglwr* dengys Dafydd Wyn Wiliam fel y bu i William Morris gytuno i gasglu enwau tanyysgrifwyr i'r gwaith hwn ym Môn. Hwyrach mai ef a sicrhodd danyysgrifiad Wright er nad yw enw'r môrheliwr yn y rhestrau o danyysgrifwyr a rydd William Morris mewn dau lythyr at ei frawd Richard, y naill yn Nhachwedd a'r llall yn Rhagfyr,

1751.

Yn y flwyddyn 1936, cyhoeddodd Gwasg Prifysgol Rhydychen lyfr gan Barbara Dew Roberts sydd yn adrodd hanes y môrheliwr rhyfygus a'r dyddiadurwr. Ei phrif ffynhonnell wrth lunio *Mr. Bulkeley and the pirate* oedd dyddiadur y Brynddu. Yn ei adolygiad o hwn yn rhifyn Gaeaf 1936 o'r *Llenor*, mae G.J. Williams yn tynnu sylw at fai sylfaenol a welai ynddo, sef y ffaith i'r awdur anwybyddu tystiolaeth werthfawr llythyrau'r Morrisiaid bron yn llwyr. Un o ganlyniadau hyn yw ei bod yn dod i gasgliad dadleuol iawn pan honna mai yn ei ieuectid yn unig yr ymddiddorai William Bulkeley yn y Gymraeg a'i llenyddiaeth. Er ei fod yn rhugl yn y Gymraeg, yr iaith fain yw iaith y dyddiadur a Saesneg a Lladin y farddoniaeth a ddyfynnir ynddo. Oherwydd hyn credai Miss Dew Roberts mai Llsg. LLGC 832E, *Llyfr Gwyn Mechell*, sydd yn llaw Bulkeley, yw'r unig dystiolaeth i'w ddiddordeb yn y pwnc. Casglaid yw LLGC 832E o farddoniaeth Gymraeg o'r 15, 16 a'r 17 ganrif. Pwysleisia'r adolygydd fod digonedd o dystiolaeth yn llythyrau'r Morrisiaid i wrth-ddweud yr honiad hwn. Cofier hefyd sylw Thomas Richards yn ei gofnod i Bulkeley yn y *Bywgraffiadur*, 'Nid oedd sgweiar ym Môn yn fwy Cymro nag ef.' Teimlai G.J. Williams fod anwybyddu tystiolaeth y llythyrau yn gangymeriad. Byddai eu hastudio wedi cynnig ateb i sawl cwestiwn a godai wrth ddarlun y dyddiadur, rhai nad oedd gan yr awdur ateb iddynt. Tybed ai'r gwirionedd yw bod gan y sgweiar ddiddordeb gydol ei oes yn llenyddiaeth ei wlad ond bod y diddordeb hwnnw ar ei anterth yn y 1720au a'r 1730au pan oedd fwyaf o dan ddylanwad Lewis Morris? Yn y gyntaf o'i ddwy gyfrol ddiweddar ar Lewis, awgryma Dafydd Wyn Wiliam mai Lewis Morris fu'n cymell y sgweiar i gopio LLGC 832E, i gyflogi'r bardd Michael Pritchard fel garddwr ac i letya'r argraffydd a'r almanaciwr Sion Rhydderch yn 1730. Croesawyd yr olaf i fwy nag un

(parhâd ar y dudalen nesaf)